# Lefel 4 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant (6502)

City & Guilds

LLAWLYFR CYMWYSTERAU




# Y cymhwyster yn fyr

| **Maes pwnc** | **Dysgu ac Addysgu** |
|---|---|
| **Rhif City & Guilds** | 6502 |
| **Gr p oed wedi'i gymeradwyo** | 19+ |
| **Gofynion mynediad** | Dylai ymgeiswyr fod yn gymwys / yn brofiadol yn y pwnc maen nhw'n bwriadu ei addysgu, a chael modd i gael 30 o oriau ymarfer dysgu a bod â lefelau rhesymol o iaith, llythrennedd a rhifedd. Dylai pob athro dan hyfforddiant sy'n ymuno â rhaglen y cymhwyster hwn ymgymryd ag asesiad cychwynnol o sgiliau mewn Saesneg, mathemateg a TGCh. Dylent gofnodi eu hanghenion datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Os ydynt yn ymuno â rhaglen y cymhwyster ar ôl cwblhau eisoes asesiad cychwynnol diweddar, dylid adolygu eu cofnod o anghenion datblygu a gweithredu blaenorol i roi sylw iddyn nhw. |
| **Asesu** | Caiff y cymhwyster hwn ei asesu trwy gyfuniad o aseiniadau ac arsylwi addysgu neu hyfforddi. Ni chaniateir efelychu addysgu (micro-addysgu) ar gyfer y cymhwyster hwn.<br>Caiff gweithgareddau asesu a awgrymir eu darparu ar ffurf aseiniadau enghreifftiol mewn pecyn asesu, sydd ar gael ar wefan City & Guilds, www.cityandguilds.com<br>Nid yw'r aseiniadau enghreifftiol yn y pecyn asesu'n orfodol, ond cynigir nhw i ganolfannau mewn ymgais i sicrhau bod dysgwyr yn cwrdd â'r holl feini prawf asesu. Gyda'r pecyn asesu mae pecyn atebion, yn cynnwys atebion model ar gyfer yr aseiniadau enghreifftiol. |
| **Llwybr cyflym** | Ar gael |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr cymwysterau<br>Pecyn asesu<br>Pecyn atebion<br>Smartscreen<br>E-ddysgu TAQA<br>Llyfr gosod cymwysterau |
| **Cofrestru ac Ardystio** | Gweler y Walled Garden /Catalog Ar-lein am y dyddiadau diweddaraf |

| **Teitl a lefel** | **Rhif City & Guilds** | **Rhif Achredu** |
|---|---|---|
| Lefel 4 Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant (Unedau E&T yn unig) | 6502-41 | 601/0253/6 |
| Lefel 4 Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant (Unedau E&T, TAQA a D&D) | 6502-42 | 601/0253/6 |
| Lefel 4 Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant (Llwybr unedau E&T, TAQA a D&D) | 6502-94 | 601/0253/6 |
| Lefel 4 Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant (Llwybr unedau E&T) | 6502-95 | 601/0253/6 |




# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **2** | **Gofynion y Ganolfan** | **12** |
| | Cymeradwyaeth | 12 |
| | Gofynion adnoddau | 13 |
| | Gofynion mynediad dysgwyr | 14 |
| **3** | **Cyflwyno'r cymhwyster** | **15** |
| | Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu | 15 |
| | Deunyddiau cefnogi | 15 |
| **4** | **Asesu** | **18** |
| | Strategaeth asesu | 19 |
| **5** | **Unedau** | **22** |
| **Uned 301** | **Deall rolau, cyfrifoldebau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant** | **24** |
| **Uned 401** | **Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant** | **27** |
| **Uned 402** | **Cyflwyno addysg a hyfforddiant** | **30** |
| **Uned 403** | **Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant** | **33** |
| **Uned 404** | **Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant** | **36** |
| **Atodiad 1** | **Gofynion ar gyfer cyflwyno ac asesu Dysgu a Datblygu** | **39** |
| **Atodiad 2** | **Gofynion ar gyfer cyflwyno ac asesu Llythrennedd ac Addysgu iaith a Mathemateg ar gyfer Addysgu Rhifedd** | **41** |
| **Atodiad 3** | **Perthynas i gymwysterau eraill** | **42** |
| **Atodiad 4** | **Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol** | **43** |




# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen yn rhoi gwybodaeth **fanwl** am yr **unedau gorfodol** a gwybodaeth **generig** am yr **unedau dewisol.** Bydd y wybodaeth yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu eu rhaglen cymwysterau. Gweler y pecyn uned 6502 Lefel 4 a 5 am wybodaeth fanwl am yr unedau dewisol.

Mae Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant yn gymhwyster addysgu cam cyntaf sydd â gofyniad ymarfer addysgu/ hyfforddiant. Mae'n gymhwyster 'mewn gwasanaeth' sydd wedi ei gynllunio i rai sy'n gweithio neu sydd am weithio fel athrawon/ hyfforddwyr yng Nghymru a Lloegr. Gall hi fod yn bosibl i athrawon/ hyfforddwyr cyn-gwasanaeth (wedi'u diffinio fel rhai sydd heb gael cytundeb ffurfiol fel athrawon/ hyfforddwyr) hefyd i gwblhau'r cymhwyster hwn. Rhaid i bob ymgeisydd, boed yn rhai cyn-gwasanaeth neu mewn-gwasanaeth gael modd i gael 30 awr o addysgu. Mae'r cymhwyster hwn hefyd yn addas i'r rhai sy'n cyflwyno addysg a hyfforddiant mewn unrhyw amgylchedd dysgu.

Bydd gan ymgeiswyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus ddealltwriaeth sylfaenol o rolau a chyfrifoldebau athro/ hyfforddwr mewn perthynas â deddfwriaeth, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a diwallu anghenion dysgwyr. Byddant yn gallu defnyddio asesiadau cychwynnol a diagnostig a chynllunio a chyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol. Byddan nhw hefyd yn gallu asesu dysgu a defnyddio adnoddau priodol i gefnogi dysgu effeithiol.

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | I ymgeiswyr sy'n gweithio neu sydd am weithio fel athrawon/ hyfforddwyr yn y sector sgiliau ac addysg bellach.<br>I ymgeiswyr sydd newydd ddechrau rôl addysgu/ hyfforddi.<br>I athrawon/hyfforddwyr sy'n chwilio am ddilyniant gyrfa yn eu maes gwaith.<br>I ymgeiswyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar sail un-i-un.<br>I ymgeiswyr sy'n addysgu mewn diwydiant.<br>I ymgeiswyr sydd eisoes wedi cyflawni rhai unedau Dysgu a Datblygu sy'n gallu cael eu dwyn ymlaen i'r cymhwyster hwn.<br>I ymgeiswyr sy'n aseswyr ac sydd am gyflawni cymhwyster addysgu/hyfforddi.<br>I ymgeiswyr sydd wedi cwblhau sgiliau Hyfforddwr City and Guilds neu gyflwyniad i gymwysterau hyfforddi (7300, 1103-01 neu 6258) |

| | |
|---|---|
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Mae'r cymhwyster yn cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar athrawon/ hyfforddwyr yn y sector sgiliau ac addysg bellach, fel:<br>• Deall rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant<br>• Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant<br>• Cyflwyno addysg a hyfforddiant<br>• Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant<br>• Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant |
| A yw'r cymhwyster yn rhan o fframwaith neu gynllun? | Mae'r cymhwyster yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) ac mae'n gymhwyster addysgu cam cyntaf. Dydy'r cymhwyster ddim yn rhan o'r fframwaith prentisiaeth. |
| Gyda phwy wnaethon ni ddatblygu'r cymhwyster? | Cafodd y cymwysterau eu datblygu gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Gwella Sgiliau (LSIS). |
| Pa gyfleoedd sydd yno ar gyfer dilyniant? | Mae'r cymhwyster yn caniatáu i ymgeiswyr fynd ymlaen i gyflogaeth fel athrawon/ hyfforddwyr, yn ogystal â dilyn cymwysterau City & Guilds:<br>• Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant |

**Nodweddion Allweddol Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant**

Mae'r Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant yn gymhwyster dysgu cam cyntaf a fydd yn rhoi i ymgeiswyr ddealltwriaeth sylfaenol o rolau a chyfrifoldebau athro/hyfforddwr mewn perthynas â deddfwriaeth, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a bodloni anghenion dysgwyr. Mae'n cynnwys defnyddio asesiadau cychwynnol a diagnostig ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynllunio a chyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol, cynnal asesiadau o ddysgu ac er mwyn dysgu a defnyddio adnoddau'n effeithiol.

Nid yw cyfres 2013 o gymwysterau mewn Addysg a Hyfforddiant wedi ei 'nythu'. Mae pum uned orfodol. Mae un o'r unedau gorfodol - uned 301 - hefyd yn uned orfodol yn Nyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant. Gelwir hon yn 'uned gyffredin'. Does dim gofyniad i ailadrodd yr uned hon os cyflawnwyd hi o fewn Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant.

Does dim gofyniad i gwblhau Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant cyn cychwyn y cymhwyster hwn.

Mae pob un o'r unedau gorfodol yn Unedau Addysg a Hyfforddiant. Mae'r unedau dewisol yn cynnwys unedau Addysg a Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu (D a D), Dyfarniad mewn Saesneg ar gyfer unedau Addysgu Iaith a Llythrennedd (ELLT) a Dyfarniad mewn Mathemateg ar gyfer unedau Addysg Rhifedd (MNT). Os dewisir unedau Dysgu Datblygu a/neu Ddyfarniad mewn Saesneg ar gyfer Addysgu Iaith a Llythrennedd neu Ddyfarniad mewn Mathemateg ar gyfer unedau Addysgu Rhifedd, rhaid iddyn nhw gael eu cyflwyno a'u hasesu'n unol â'r strategaeth asesu ar gyfer y cymwysterau hynny (Atodiad 1 6317/8 a strategaeth Atodiad 2 6255). Rhaid i Ganolfannau sydd am gyflwyno'r unedau Dysgu a Datblygu dewisol, y Dyfarniad mewn Saesneg ar gyfer Addysgu Iaith a Llythrennedd neu Ddyfarniad mewn Mathemateg ar gyfer unedau dewisol Addysgu Rhifedd sicrhau eu bod wedi'u cymeradwyo ar gyfer holl gymwysterau 6502, 6317/8 a 6255.

Mae gofyniad am leiafswm o 30 o oriau o ymarfer addysgu/ hyfforddi a lleiafswm o dri arsylwad ymarfer addysgu/ hyfforddi, y mae'n rhaid iddynt gyrraedd y safon ymarfer ofynnol.

(Am y safon ymarfer ofynnol gweler adran 'arsylwadau' a/neu arweiniad LSIS
**http://www.excellencegateway.org.uk/node/27406**

Rhaid i'r tri arsylwad gofodol gael eu cysylltu i'r unedau gorfodol canlynol:

- Cyflwyno addysg a hyfforddiant (Lefel 4)
- Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant (Lefel 4)
- Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant (Lefel 4).

I fod yn gymwys am ddyfarniad credyd am unrhyw un o'r tair uned uchod, rhaid i ymgeisydd allu rhoi tystiolaeth o leiafswm o un arsylwad ymarfer wedi'i asesu sy'n cyrraedd safon ymarfer ofynnol. I fod yn gymwys am ddyfarnu credyd am bob un o'r tair uned, rhaid i ymgeisydd allu rhoi tystiolaeth o leiafswm o dri arsylwad ymarfer wedi'i asesu sy'n cyrraedd y safon ymarfer ofynnol. Mae manylion y safon ymarfer ofynnol yn adran 4 y ddogfen hon.

Gyda rhai o'r unedau dewisol mae gofyniad am arsylwadau ymarfer wedi'u hasesu. Mae unrhyw arsylwadau cysylltiedig ag unedau dewisol **yn ychwanegol** at y tri arsylwad gorfodol cysylltiedig â'r unedau gorfodol.

# Strwythur

I gyflawni **Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant**, rhaid i ymgeiswyr gael lleiafswm o **36** credyd;rhaid i **21** credyd gael eu cyflawni o'r unedau gorfodol yng ngr p A
A lleiafswm o **15** credyd o unedau dewisol yng ngr p B

Rhaid i leiafswm o 21 credyd fod ar Lefel 4 neu uwch (felly rhaid i leiafswm o 3 chredyd dewisol fod ar lefel 4).

| Rhif achredu uned | Rhif uned City & Guilds | Teitl yr uned | Gwerth credydau | ODDA | Lefel Uned |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorfodol – Gr p A** | | | | | |
| H/505/0053 | 301 | Deall rolau, cyfrifoldebau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant | 3 | 12 | 3 |
| A/505/1189 | 401 | Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant | 3 | 15 | 4 |
| M/505/0122 | 402 | Cyflwyno addysg a hyfforddiant | 6 | 24 | 4 |
| F/505/0125 | 403 | Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant | 6 | 24 | 4 |
| L/505/0127 | 404 | Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant | 3 | 15 | 4 |
| **Dewisol – Gr p B** | | | | | |
| H/601/5314 (D a D) | 307 | Asesu hyfedredd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith | 6 | 30 | 3 |
| F/601/5319 (D a D) | 308 | Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth | 6 | 30 | 3 |
| F/502/9551 (D a D) | 309 | Ymrwymo dysgwyr yn y broses ddysgu a datblygu | 6 | 30 | 3 |
| Y/502/9555 (D a D) | 310 | Ymwneud â chyflogwyr i ddatblygu a chefnogi darpariaeth dysgu | 6 | 25 | 3 |
| K/502/9544 (D a D) | 311 | Adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol | 3 | 24 | 3 |
| J/503/4850 (ELLT) | 312 | Dadansoddi'r iaith Saesneg ar gyfer | 3 | 15 | 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | llythrennedd ac addysgu iaith | | | |
| R/503/4852 | 313 | Sgiliau darllen ar gyfer llythrennedd ac addysgu iaith | 3 | 15 | 3 |
| D/503/4854 (ELLT) | 314 | Sgiliau siarad a gwrando ar gyfer llythrennedd ac addysgu iaith | 3 | 15 | 3 |
| K/503/4856 (ELLT) | 315 | Sgiliau ysgrifennu ar gyfer llythrennedd ac addysgu iaith | 3 | 15 | 3 |
| A/503/4859 (AMRh) | 316 | Defnyddio mathemateg: bywyd personol a chyhoeddus | 6 | 30 | 3 |
| F/503/4863 (AMRh) | 317 | Defnyddio mathemateg: Cyd-destunau proffesiynol a galwedigaethol | 6 | 30 | 3 |
| T/503/4861 (AMRh) | 318 | Defnyddio mathemateg: pynciau academaidd | 6 | 30 | 3 |
| F/505/0187 | 319 | Asesu a chefnogaeth i gydnabod dysgu blaenorol trwy achredu canlyniadau dysgu | 6 | 30 | 3 |
| A/502/9547 (D a D) | 405 | Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu | 6 | 25 | 4 |
| M/502/9545 (D a D) | 406 | Datblygu rhaglenni dysgu a datblygu | 6 | 30 | 4 |
| D/502/9556 (D a D) | 407 | Ymwneud â chyflogwyr i hwyluso datblygiad gweithlu | 6 | 30 | 4 |
| H/502/9543 (D a D) | 408 | Adnabod anghenion dysgu sefydliadau | 6 | 30 | 4 |
| A/601/5321 (D a D) | 409 | Sicrhau ansawdd asesu'n fewnol | 6 | 45 | 4 |
| A/502/9550 (D a D) | 410 | Rheoli dysgu a datblygu mewn grwpiau | 6 | 30 | 4 |
| F/601/5322 (D a D) | 411 | Deall egwyddorion ac arferion sicrhau ansawdd asesu'n allanol | 6 | 45 | 4 |
| T/601/5320 (D a D) | 412 | Deall egwyddorion ac arferion sicrhau ansawdd asesu'n fewnol | 6 | 45 | 4 |
| M/505/1089 | 413 | Cyflwyno sgiliau cyflogadwyedd | 6 | 20 | 4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y/503/5310 | 414 | Gweithio partneriaeth effeithiol yn y cyd-destun dysgu ac addysgu | 15 | 50 | 4 |
| Y/503/5789 | 415 | Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 6 | 25 | 4 |
| K/505/1091 | 416 | Gwerthuso rhaglenni dysgu | 3 | 15 | 4 |
| L/503/5384 | 417 | Arfer cynhwysol | 15 | 50 | 4 |
| J/505/0188 | 418 | Paratoi ar gyfer y rôl hyfforddi | 3 | 15 | 4 |
| L/505/0189 | 419 | Paratoi ar gyfer y rôl fentora | 3 | 15 | 4 |
| T/505/1093 | 420 | Paratoi ar gyfer rôl tiwtor personol | 3 | 15 | 4 |
| L/504/0231 | 421 | Egwyddorion ac arfer addysgu darllen gwefusau | 12 | 48 | 4 |
| R/504/0229 | 422 | Gweithgareddau a thechnegau cyflwyno arbenigol | 9 | 30 | 4 |
| J/505/1096 | 423 | Addysgu mewn maes arbenigol | 15 | 50 | 4 |
| Y/505/1099 | 424 | Deall a rheoli ymddygiad mewn amgylchedd dysgu | 6 | 20 | 4 |
| D/505/1105 | 425 | Gweithio gydag ystod oed 14-19 mewn addysg a hyfforddiant | 9 | 30 | 4 |
| M/503/5376 | 504 | Dysgu gweithredol i gefnogi datblygiad pedagogeg benodol i bwnc | 15 | 50 | 5 |
| T/503/5380 | 505 | Ymchwil weithredol | 15 | 50 | 5 |
| H/505/1090 | 506 | Datblygu, defnyddio a threfnu adnoddau mewn maes arbenigol | 15 | 50 | 5 |
| M/505/3912 | 507 | Rheoli ymddygiad mewn amgylchedd dysgu | 6 | 20 | 5 |

DS - Mae unedau dewisol sydd â gofynion arbenigol o ran cyflwyno wedi'u hamlygu mewn glas.

**Allwedd**

| Talfyriad | Ystyr |
|---|---|
| D a D | Dysgu a Datblygu |
| ELLT | Addysgu Iaith a Llenyddiaeth Saesneg |
| MNT | Addysgu Mathemateg a Rhifedd |

## Diagram

**Grŵp A**
Rhaid cael 21 credyd o'r grŵp hwn

| | |
|---|---|
| Deall reolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant<br>3 chredyd<br>Lefel 3<br>Uned Orfodol | Cynllunio i gwrdd ag anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant<br>3 chredyd<br>Lefel 4<br>Uned Orfodol |
| Cyflwyno addysg a hyfforddiant<br>6 chredyd<br>Lefel 4<br>Uned Orfodol | Asesu dysgwyr mewn Addysg a hyfforddiant<br>6 chredyd<br>Lefel 4<br>Uned Orfodol |
| Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant<br>3 chredyd<br>Lefel 4<br>Uned Orfodol | |

Grŵp B
Rhaid cael 15 credyd o'r grŵp hwn

| |
|---|
| Credydau amrywiol<br>Lefel 3, 4 a 5<br>Grŵp unedau dewisol |



# 2 Gofynion y Ganolfan

## Cymeradwyaeth

Os yw eich Canolfan wedi ei chymeradwyo i gynnig Tystysgrif Lefel 4 yn y Sector Dysgu Gydol Oes Sector 6304 cyfres 04, neu'r Diploma Lefel 5 mewn Addysgu yn y Sector Gydol Oes cyfres 01, gallwch wneud gais i gynnig y Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant 6502 cyfres 41 gan ddefnyddio'r ffurflen gymeradwyo llwybr cyflym, sydd ar gael ar wefan City & Guilds.

Os yw eich canolfan wedi ei chymeradwyo i gynnig Tystysgrif Lefel 4 yn y Sector Dysgu Gydol Oes cyfresi 04 ac 05, neu'r Diploma Lefel 5 mewn Addysgu yn y Sector Gydol Oes cyfresi 01 ac 02, gallwch wneud gais i gynnig y Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant cyfresi 41, 42 a 92 gan ddefnyddio'r ffurflen gymeradwyo llwybr cyflym, sydd ar gael ar wefan City & Guilds.

Os yw eich canolfan am gynnig unrhyw un o'r unedau dewisol llythrennedd a rhifedd fel rhan o'r Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant (pob un o unedau 312-318) bydd angen i chi ddangos bod gennych staff profiadol sydd wedi'u cymhwyso'n briodol i wneud hyn. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod cymeradwyaeth yn ei lle. Gall City & Guilds benderfynu peidio â rhoi tystysgrif lle nad yw gofynion cymeradwyaeth wedi'u bodloni.
Cysylltwch â'r swyddfa leol neu'r ganolfan QC i gael cyngor am gymeradwyaeth gan fod gofynion penodol yn ymwneud â chyflwyno, asesu, sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yr unedau hyn.

Dylai Canolfannau ddefnyddio'r ffurflen llwybr cyflym os:
- na fu newidiadau yn y ffordd y caiff y cymwysterau eu cyflwyno, ac
- eu bod yn bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo yn nodiadau canllaw'r ffurflen llwybr cyflym.

Mae cymeradwyaeth llwybr cyflym ar gael 12 mis o gychwyn y cymhwyster hwn. Ar ôl 12 mis, bydd rhaid i'r Ganolfan fynd trwy Broses safonol Cymeradwyo Cymwysterau. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am wirio bod cymeradwyaeth llwybr cyflym o hyd mewn grym ar adeg y cais.

**DS: Caiff cymeradwyaeth Llwybr Cyflym am y cymwysterau newydd ei rhoi ar sail cofrestriadau'n unig.** Caiff Statws Hawl Uniongyrchol ei roi yn dilyn samplu boddhaol gan yr Ymgynghorydd Cymwysterau.

Gan ddibynnu ar ba gyfresi ac unedau dewisol y mae canolfan am eu cynnig, gall cymeradwyaeth i gynnig cymwysterau ychwanegol - llwybrau arbenigol 6317, 6318, 6255, 6305, 6503 - fod yn gymwys.

I gynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau newydd ennill cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i'r cymhwyster. Cyfeiriwch at *Lawlyfr Canolfannau - Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid* i gael rhagor o wybodaeth.

Dylai staff y Ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynllun a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

## Gofynion adnoddau

### Staffio'r Ganolfan

Dylai fod gan bawb sy'n cyflwyno unedau a/neu'n arsylwi ac yn asesu ymarfer am yr unedau gorfodol a'r unedau dewisol Addysg a Hyfforddiant yn y Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant y cyfan o'r canlynol:

- cymhwyster addysgu neu hyfforddi[1]
- tystiolaeth o brofiad addysgu perthnasol mewn cyd-destun addysg neu hyfforddiant;
- gafael ar arweiniad a chefnogaeth briodol; a
- chymryd rhan yn barhaus mewn prosesau sicrhau ansawdd cysylltiedig â'r rhaglen.

Sylwer bod gofynion ychwanegol i'r rhai sy'n cyflwyno, yn asesu ac yn sicrhau ansawdd yr unedau Dysgu a Datblygu yn fewnol (Atodiad 1) a'r Dyfarniad Lefel 3 yn Saesneg ar gyfer Addysgu Llythrennedd ac Iaith a'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Mathemateg ar gyfer Unedau Addysg Rhifedd (Atodiad 2).

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn cwrdd â'r gofynion arbenigol galwedigaethol canlynol. Dylent:

- fod yn fedrus o ran galwedigaeth neu â gwybodaeth dechnegol yn y maes y maen nhw'n cyflwyno hyfforddiant ynddo a/neu fod ganddynt brofiad o ddarparu hyfforddiant.
- feddu ar brofiad perthnasol yn y maes penodol y byddan nhw'n ei asesu
- fod wedi cael profiad credadwy o ddarparu hyfforddiant
- rhaid i staff hefyd fod yn alluog yn alwedigaethol a meddu ar wybodaeth dechnegol mewn addysg a/neu hyfforddiant.

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Saesneg i Athrawon  Llythrennedd ac Iaith a Dyfarniad unedau Lefel 3 mewn Mathemateg a Rhifedd  feddu hefyd ar gymhwyster cydnabyddedig ar gyfer addysg yn eu maes arbenigol, er enghraifft Diploma Ychwanegol mewn Addysg Saesneg (Llythrennedd) neu Ddiploma Ychwanegol mewn Addysgu Mathemateg (Rhifedd).

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac aseswr neu sicrhawr mewnol, ond ni allant wirio eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

Rhaid i aelodau newydd o'r tîm:

• ymuno â thîm canolfan a derbyn cyflwyniad digonol a mentora a monitro digonol, a gweithio gyda'r tîm nes eu bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Rhaid cofnodi'r mentora a'r gefnogaeth a roddir ar gyfer dibenion EQA.

Rhaid i arsylwyr micro-addysgu/addysgu:

Fodloni'r gofynion uchod a bod yn aelodau llawn o dîm y ganolfan, gan gyfrannu at gyfarfodydd tîm, cyfarfodydd safoni ac ati.

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac aseswr neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni allant wirio eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

Dylai staff y Ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynllun a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

---

[1] Nid yw hyn yn cynnwys cymwysterau sy'n darparu'n unig gyflwyniad i addysgu, er enghraifft Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysgu a Hyfforddiant neu ddyfarniadau PTLLS Lefel 3 neu 4.

## Aseswyr a Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai fod gan staff y ganolfan, neu dylent weithio tuag at y cymhwyster Aseswr /Sicrhawr Ansawdd Mewnol TQA perthnasol ar gyfer eu rôl o gyflwyno, asesu a dilysu'r cymhwyster hwn, neu gwrdd â'r gofynion profiad perthnasol a amlinellir uchod.

Mae gofynion ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n asesu ac sy'n sicrhau ansawdd yr unedau Dysgu a datblygu a'r unedau Saesneg ar gyfer Llythrennedd ac Addysgu a Mathemateg ar gyfer Addysgu Rhifedd.. Rhaid i'r rhai sy'n asesu'r unedau hyn gydymffurfio â'r strategaeth asesu ar gyfer y cymwysterau cyfatebol. Ceir hyn yn Atodiad 1 a 2.

## Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Rhaid i ganolfannau gefnogi eu staff i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol yn y maes galwedigaethol, bod cyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a dilysu'n unol â'r arfer gorau, a bod hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

Rhaid i gofnodion DPP yr holl staff fod ar gael ar gyfer dibenion Sicrhau Ansawdd Allanol.

# Gofynion mynediad dysgwyr

Rhaid i ymgeiswyr ystyried pwnc ar gyfer cyflwyno ac anelu at gyflawni / neu fod wedi cyflawni cymhwyster a/neu fod â phrofiad yn eu pwnc/sgìl ar y lefel briodol.

Yn ogystal â hyn, mae natur y dysgu a'r asesu angenrheidiol ar gyfer y cymhwyster yn golygu y dylai fod gan ymgeiswyr y gallu i reoli gofynion lefel y cymhwyster y maen nhw'n ymgymryd ag ef, darllen a dehongli tasgau ysgrifenedig, ac ysgrifennu atebion mewn ffurf ddarllenadwy a dealladwy. Dylai tystiolaeth o hyn gael ei chofnodi fel rhan o'u hasesiad cychwynnol. Bydd angen i ymgeiswyr hefyd allu trefnu gwybodaeth ysgrifenedig yn glir ac yn ddealladwy.

Dylai pob ymgeisydd wneud asesiadau cychwynnol o sgiliau mewn Saesneg, mathemateg a TGCh. Dylent gofnodi eu hanghenion datblygu a, lle mae'n briodol, cytuno ar gynllun gweithredu i roi sylw iddyn nhw. Os yw ymgeiswyr yn gwneud y cymhwyster hwn ar ôl gwneud asesiad cychwynnol eisoes o sgiliau Saesneg, mathemateg a TGCh, dylai cofnod eu hanghenion datblygu ac unrhyw gynllun gweithredu blaenorol i fynd i'r afael â nhw gael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

Nid yw City & Guilds yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymhwyster. Dylai canolfannau roi gwybodaeth a chyngor digonol fel bod ymgeiswyr yn ymwybodol o swyddogaeth Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant a llwybrau cynnydd posibl.

## Cyfyngiadau oed

Ni all City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau am ymgeiswyr o dan 19 oed am y cymhwyster am nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo i rai o dan 19 oed.

## Ystyriaethau cyfreithiol eraill

Dylai ymgeiswyr a chanolfannau fod yn ymwybodol a chydymffurfio â rheoliadau a/neu ofynion sy'n effeithio rhai sy'n delio â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.



# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu

Dylid gwneud asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen i adnabod:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol,
- cefnogaeth ac arweiniad y gall fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymhwyster.
- unrhyw unedau y maen nhw eisoes wedi eu cwblhau, neu gredyd maen nhw wedi'i grynhoi sy'n berthnasol i'r cymhwyster.
- math a lefel briodol y cymhwyster.

Rydym yn argymell bod canolfannau'n cynnal rhaglen gyflwyno fel bod y dysgwr yn deall yn llawn ofynion y cymhwyster, eu cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gytundeb dysgu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i'w cyrchu |
|---|---|
| Aseiniadau Enghreifftiol | Yn y Pecyn Asesu i'w gael ar wefan City & Guilds www.cityandguilds.com |
| Atebion model /meini prawf graddio er enghraifft aseiniadau | Yn y Pecyn Atebion i'w gael ar wefan City & Guilds www.cityandguilds.com |
| Ffurflenni ar gyfer canolfannau | Yn y Pecyn Ffurflenni oddi wrth Ganolfannau i'w gael ar wefan City & Guilds www.cityandguilds.com |
| Smartscreen | Deunyddiau E-ddysgu TAQA ar gael trwy Smartscreen.<br>Mae SmartScreen.co.uk yn rhoi cefnogaeth ar-lein i diwtoriaid, aseswyr a dysgwyr cymwysterau City & Guilds. Mae deunyddiau cefnogi ansawdd uchel yn rhoi cefnogaeth ategol i'r holl brofiad addysgu a dysgu. Gallwch danysgrifio o'r Walled Garden, ffoniwch ni ar 0844 543 0000 neu e-bostiwch eich archeb i **directsales@cityandguilds.com**. |

| Disgrifiad | Sut i'w cyrchu |
|---|---|
| Llyfrau Gosod Cymwysterau | Llyfr gosod City & Guilds: Lefel 3 Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant (ar gael Rhagfyr 2013)<br>Arweiniad City & Guilds i Sicrhau Ansawdd Ymarferol<br>Mae modd cael llyfrau gosod o'r Walled Garden, ffoniwch ni ar 0844 543 0000 neu e-bostiwch eich archeb i **directsales@cityandguilds.com** |
| 6317 Lefelau 3 Dyfarniad a Thystysgrif mewn Asesu a Sicrhau Ansawdd | Gwefan City & Guilds **www.cityandguilds.com** – rhowch 6317 yn y 'blwch chwilio' ar ochr dde'r dudalen. |
| 6318 Lefel 3 a 4 Dyfarniad a Thystysgrif mewn Dysgu a Datblygu | Gwefan City & Guilds www.cityandguilds.com – rhowch 6318 yn y 'blwch chwilio' ar ochr dde'r dudalen. |
| 6255 Lefel 3 Dyfarniad mewn Saesneg ar gyfer Llythrennedd ac Addysgu Iaith | Gwefan City & Guilds www.cityandguilds.com – rhowch 6255 yn y 'blwch chwilio' ar ochr dde'r dudalen. |
| 6255 Lefel 3 Dyfarniad mewn Mathemateg ar gyfer Addysgu Rhifedd | Gwefan City & Guilds www.cityandguilds.com – rhowch 6255 yn y 'blwch chwilio' ar ochr dde'r dudalen. |
| Aseiniadau Enghreifftiol | Yn y Pecyn Asesu i'w gael ar wefan City & Guilds www.cityandguilds.com |
| Atebion model /meini prawf graddio ar gyfer aseiniadau enghreifftiol | Yn y Pecyn Atebion i'w gael ar wefan City & Guilds www.cityandguilds.com |
| 6502 Lefel 4 pecyn ffurflenni | Gwefan City & Guilds www.cityandguilds.com |

Am wybodaeth bellach i gynorthwyo gyda chynllunio a datblygu'r rhaglen, cyfeiriwch at y canlynol:

http://tariff.svuk.eu

Mae gwefan LSIS yn dangos canlyniadau dysgu, meini prawf asesu ar arweiniad am bob cymhwyster yng nghyfres Addysg a Hyfforddiant yn

**http://www.excellencegateway.org.uk/node/65**

Mae modd lawrlwytho dogfen y safonau proffesiynol cwmpasog i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr o wefan porth ardderchog LSIS;
http://repository.excellencegateway.org.uk/fedora/objects/eg:419/datastreams/DOC/content

### Gofynion tystiolaeth

Rhagwelir y bydd ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r meini prawf mewn nifer o ffyrdd a dylent gynnwys:

- **Aseiniadau -** i roi tystiolaeth am feini prawf yr asesiad gwybodaeth (naill ai o'r Pecyn Asesu sydd wedi'i ddarparu neu aseiniadau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan a gafodd eu cymeradwyo gan Ymgynghorydd Cymwysterau'r ganolfan)
- **Gofynion ymarfer** - Mae gofyniad am isafswm o 30 awr o ymarfer ar gyfer y cymhwyster hwn. Does dim gofyniad i roi tystiolaeth am weithio gyda grwpiau o

ddysgwyr i gyflawni'r cymhwyster hwn oni bai bod unedau'n cael eu cymryd sy'n nodi'r pwrpas hwnnw. Fodd bynnag, lle mae athrawon/hyfforddwyr yn gweithio'n unig gydag unigolion, gall rhaglen hefyd gynnwys cefnogaeth a pharatoi ar gyfer gweithio gyda grwpiau. Rhaid i ymarfer fod mewn amgylchedd addysgu a dysgu. Gweler cyfarwyddyd pellach ar ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu yn adran 4,

- **Gofynion arsylwi gofynion** - Dylai arsylwadau gael eu gwasgaru'n briodol trwy gydol yr holl raglen a dylent gymryd cynnydd ymgeisydd i ystyriaeth. Fel y nodir uchod, mae gofyniad am isafswm o dri arsylwad ymarfer. Rhaid i'r tri arsylwad gael eu cysylltu â'r unedau canlynol:
    - Cyflwyno addysg a hyfforddiant (Lefel 4)
    - Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant (Lefel 4)
    - Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant (Lefel 4).

Sylwer, i fod yn gymwys am ddyfarnu credu am unrhyw un o'r tair uned uchod, rhaid i ymgeisydd allu rhoi tystiolaeth o leiafswm o un arsylwad ymarfer wedi'i asesu sy'n cyrraedd safon ymarfer ofynnol. I fod yn gymwys am ddyfarnu credyd am bob un o'r tair uned, rhaid i ymgeisydd allu rhoi tystiolaeth o leiafswm o dri arsylwad ymarfer wedi'i asesu sy'n cyrraedd safon ymarfer ofynnol.

Mae gofynion ymarfer ychwanegol, gan gynnwys ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu, ar gyfer rhai unedau dewisol sy'n perthyn i'r gyfres Addysg a Hyfforddiant ac unedau Dysgu a Datblygu. Mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at y gofynion arsylwi ac asesu ymarfer a nodwyd uchod am yr unedau gorfodol a chânt eu crynhoi yn y ddogfen arweiniad ar wahân.
Mae modd lawrlwytho'r pecyn unedau dewisol 6502 Lefel 4 a 5 o wefan City & Guilds website **http://www.cityandguilds.com/Courses-and-Qualifications/learning/teaching/6502-education-and-training**

Caniateir dysgu cyfunol, ar yr amod fod y ganolfan yn gallu rhoi tystiolaeth bod pob agwedd o'r rhaglen wedi'u cynllunio'n ofalus; bod adnoddau digonol a phriodol ar gael i gefnogi'r ymgeiswyr, a bod eu Hymgynghorydd Cymwysterau wedi cymeradwyo'r rhaglen.

Mae dysgu o bellter yn annhebygol o ddarparu cyfleoedd ar gyfer modelu technegau a rhyngweithiad gydag ymgeiswyr eraill.

### Dogfennau cofnodi

Gall ymgeiswyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull papur neu electronig o gofnodi tystiolaeth.
Mae City & Guilds yn cymeradwyo sawl system e-Bortffolio, gan gynnwys ein rhai ein hunain, Cynorthwywr Dysgu, offeryn ar-lein diogel a hawdd ei ddefnyddio i gefnogi ac i roi tystiolaeth am gynnydd dysgwyr tuag at gyflawni cymwysterau. Mae manylion ar gael yn: www.cityandguilds.com/eportfolios.

Mae City & Guilds wedi datblygu set o Ffurflenni cofnodi gan gynnwys enghreifftiau o ffurflenni wedi'u cwblhau, i ganolfannau hen a newydd eu defnyddio fel y bo'n briodol. Mae ffurflenni cofnodi ar gael ar wefan City & Guilds. **http://www.cityandguilds.com/Courses-and-Qualifications/learning/teaching/6502-education-and-training**

Er y rhagwelir y bydd canolfannau'n defnyddio'r ffurflenni hyn, gall canolfannau ddyfeisio neu deilwra ffurflenni amgen, y mae'n rhaid i'r ymgynghorydd cymwysterau eu cymeradwyo i'w defnyddio, cyn y cânt eu defnyddio gan ddysgwyr ac aseswyr yn y ganolfan. Mae fersiynau addasadwy (MS Word) ar gael o wefan City & Guilds

# 4 Asesu

Mae City & Guilds wedi darparu'r adnoddau canlynol - mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan City & Guilds:

• Enghreifftiau o aseiniadau a phecynnau ateb ar gyfer unedau 301, 401, 402, 403 a 404

Mae canllaw atebion yr aseiniad enghreifftiol wedi'i warchod gan gyfrinair - Mae'r cyfrinair ar gael trwy'r Walled Garden.

Gall canolfannau hefyd ddatblygu eu haseiniadau eu hunain ar yr amod eu bod yn galluogi'r ymgeisydd i fodoli'r holl feini prawf asesu. Rhaid i unrhyw aseiniad a ddatblygwyd gan ganolfan gael ei gyflwyno i'w Ymgynghorydd Cymwysterau ar gyfer cymeradwyaeth cyn cyflwyno. Edrychwch yn y pecyn asesu ar wefan City & Guilds am wybodaeth ychwanegol.

| **Uned** | **Teitl** | **Dull asesu** | **Ble i gael deunyddiau asesu** |
|---|---|---|---|
| 301 | Deall rolau, cyfrifoldebau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant | Aseiniad - wedi'i osod gan City & Guilds, ei gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/ aseswr, neu aseiniad wedi'i ddyfeisio gan y ganolfan, y bydd City & Guilds yn sicrhau ei ansawdd yn allanol. | Walled Garden City and Guilds am gyfrineiriau |
| 401 | Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant | Aseiniad – wedi'i osod gan City & Guilds a'i gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/ aseswr, neu aseiniad wedi'i ddyfeisio gan y ganolfan, ynghyd â thystiolaeth cynnyrch wedi'i leoli yn y portffolio ymarfer dysgu, gyda City & Guilds yn sicrhau ei ansawdd yn allanol | Walled Garden City and Guilds am gyfrineiriau |
| 402 | Cyflwyno addysg a hyfforddiant | Aseiniad – wedi'i osod gan City & Guilds a'i gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/ aseswr, neu aseiniad wedi'i ddyfeisio gan y ganolfan, ynghyd ag adroddiadau arsylwi a thystiolaeth cynnyrch wedi'i leoli yn y portffolio ymarfer dysgu, gyda City & Guilds yn sicrhau ei ansawdd yn allanol | Walled Garden City and Guilds am gyfrineiriau |

| Uned | Teitl | Dull asesu | Ble i gael deunyddiau asesu |
|---|---|---|---|
| 403 | Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant | Aseiniad – wedi'i osod gan City & Guilds a'i gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/ aseswr, neu aseiniad wedi'i ddyfeisio gan y ganolfan, ynghyd ag adroddiadau arsylwi a thystiolaeth cynnyrch wedi'i leoli yn y portffolio ymarfer dysgu, gyda City & Guilds yn sicrhau ei ansawdd yn allanol | Walled Garden City and Guilds am gyfrineiriau |
| 404 | Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant | Aseiniad – wedi'i osod gan City & Guilds a'i gyflwyno a'i farcio gan y tiwtor/ aseswr, neu aseiniad wedi'i ddyfeisio gan y ganolfan, ynghyd ag adroddiadau arsylwi a thystiolaeth cynnyrch wedi'i leoli yn y portffolio ymarfer dysgu, gyda City & Guilds yn sicrhau ei ansawdd yn allanol | Walled Garden City and Guilds am gyfrineiriau |

### Cyfyngiadau amser

Rhaid bod ymgeiswyr wedi'u cofrestru gyda City & Guilds mor agos ag sy'n bosibl at ddechrau'r rhaglen. Rhaid iddyn nhw orffen eu hasesiadau o fewn eu cyfnod cofrestru ac mor agos ag sy'n bosibl at y sesiwn gyflwyno olaf.

## Strategaeth asesu

Wrth gynllunio'r rhaglen, gall yr unedau a ddewiswyd gael eu cyflwyno fel 'unedau annibynnol', neu'n holistig ar draws y cymhwyster. Fodd bynnag, os caiff yr unedau eu cyflwyno'n holistig, rhaid i ganolfannau asesu pob uned yn unigol. Mae hyn i wneud yn si    r, pe bai'r ymgeisydd yn gadael y rhaglen cyn cwblhau'r cymhwyster llawn,  y bydd y ganolfan yn gallu tystysgrifo'r unedau sydd wedi cael eu cwblhau.

Rhaid i bob uned a ddewiswyd gael eu hasesu i wneud yn si    r bod pob un o'r meini prawf wedi'u bodloni'n unigol gan bob ymgeisydd.

Rhaid i ymgeiswyr adeiladu portffolio tystiolaeth sy'n:

• galluogi pob uned i gael ei hasesu'n annibynnol

• galluogi canolfannau i hawlio unrhyw unedau unigol a gwblhawyd os yw ymgeisydd yn tynnu allan o'r rhaglen cyn cwblhau'r cymhwyster cyfan.

• rhoi tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi cymryd rhan mewn lleiafswm o 30 awr o ymarfer a thair awr o ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu sy'n bodloni safon ofynnol ymarfer.

Mae gofynion ymarfer ychwanegol wedi'i arsylwi a'i asesu ar gyfer rhai unedau dewisol sy'n perthyn i'r gyfres Addysg a Hyfforddiant ac unedau Dysgu a Datblygu.  Mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at y gofynion arsylwi ac asesu ymarfer a nodwyd uchod am yr unedau gorfodol a chânt eu crynhoi yn y ddogfen arweiniad ar wahân.

### Arsylwi ymarfer - safon ofynnol ymarfer

Rhaid i arsylwadau'r athrawon/hyfforddwyr dan hyfforddiant gael eu graddio'n unol â chanllawiau Ofsted. Dylai arsylwadau o ymarfer wedi'i asesu gael eu gwasgaru trwy gydol y rhaglen gyfan a chymryd i ystyriaeth gynnydd athro/ hyfforddwr dan hyfforddiant. Bydd athrawon/ hyfforddwyr dan hyfforddiant felly'n cael eu harsylwi ar wahanol gamau yn eu datblygiad yn ystod y rhaglen. Cydnabyddir yng nghamau cynnar eu datblygiad na fydd rhai athrawon/ hyfforddwyr dan hyfforddiant eto wedi dangos nodweddion ymarfer da (gradd 2). Fel y nodir yn adran 3.1, Mae llawlyfr arolwg Addysg Athrawon Cychwynnol (Ofsted, 2012) yn nodi, er mwyn i ganlyniadau athrawon/ hyfforddwyr dan hyfforddiant gael eu barnu ar lefel dda (gradd 2), y dylai llawer o'u haddysgu fod yn dda, gydag enghreifftiau o addysgu eithriadol. Argymhellir y dylai fod yn ofynnol i'r holl athrawon/hyfforddwyr dan hyfforddiant gyrraedd safon dda o addysgu erbyn diwedd eu rhaglen.

Nid ddylai unrhyw arsylwadau wedi'u hasesu o ymarfer sy'n dangos nodweddion ymarfer annigonol (gradd 4) a nodir yn adran 3.1 canllawiau Ofsted gael eu cynnwys yng nghyfanswm nifer yr arsylwadau a asesir o ymarfer sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw gymhwyster unigol. Fodd bynnag, dylai darparwyr gofnodi'r arsylwadau hyn a darparu adborth datblygiadol manwl i'r athrawon/hyfforddwyr dan hyfforddiant.

Mae hi'n bwysig bod holl gofnodion arsylwadau o ymarfer a asesir sy'n dangos nodweddion yr holl raddau (1 i 4) a nodir yn adran 3.1 canllawiau Ofsted yn cael eu cadw. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n arsylwi ac yn asesu ymarfer i adnabod pwyntiau datblygiadol o'u harsylwadau blaenorol, ac i fonitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant tuag at fodloni pwyntiau datblygiadau a chyrraedd safon dda o ymarfer (gradd 2) erbyn diwedd eu rhaglen.

**Ar gyfer Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant, dylai o leiaf un awr o ymarfer sydd wedi'i arsylwi a'i asesu mewn arsylwadau cysylltiedig â'r unedau gorfodol ddangos nodweddion gradd 2.**
**Am fanylion pellach ymchwil LSIS ac argymhellion wedi'u dogfennu, ewch i'r cyswllt LSIS canlynol http://www.excellencegateway.org.uk/node/27406**

**Gan ei bod hi'n awr yn ofyniad bod arsylwadau o ymarfer a asesir yn cael eu graddio yn unol â fframwaith Ofsted, cynghorir canolfannau i sicrhau bod adroddiadau arsylwi'n rhoi tystiolaeth yn benodol ar sut mae ymgeiswyr wedi bodloni'r meini prawf asesu. Er mwyn cefnogi arsylwyr ac ymgeiswyr dylid defnyddio ffurflen adrodd arsylwi gynhwysfawr, sy'n gysylltiedig â meini prawf graddio Ofsted a meini prawf asesu'r cymhwyster.**

Mae City and Guilds wedi darparu enghraifft yn y 'pecyn ffurflenni' sydd ar gael o wefan City and Guilds**.**

## Cydnabod dysgu blaenorol

Mae cydnabod dysgu blaenorol yn golygu defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol person sydd eisoes wedi'u cyflawni i gyfrannu at gymhwyster newydd. Mae City and Guilds wedi cynhyrchu canllawiau ac mae modd eu gweld ar y wefan.

Ar gyfer cymhwyster hwn does dim trosglwyddo ymarfer, gan gynnwys ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu, o Ddyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant sydd eisoes wedi'i gyflawni.

## Disgrifyddion Lefelau

Ar Lefel 4, mae angen i ymgeiswyr ddangos yn eu hasesiadau ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i'r lefel honno. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn:

- dealltwriaeth o'r berthynas rhwng theori/ egwyddorion ac ymarfer
- tystiolaeth o ymchwil a darllen
- tystiolaeth o ystyriaeth o ymarfer sy'n unol â gwerthoedd proffesiynol
- arddull ysgrifennu academaidd, sy'n defnyddio system gyfeirio gydnabyddedig (argymhellir system Harvard). Dylai ysgrifennu fod yn gryno, a dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o gynllunio gofalus.

Dylai asesiadau ymgeiswyr gael eu gairbrosesu. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid cael arweiniad o ddogfen bolisi City & Guilds, Mynediad i Asesiad, sydd ar gael i'w lawrlwytho o www.cityandguilds.com.



# 5 Unedau

## Argaeledd unedau

Isod mae rhestr o ganlyniadau dysgu ar gyfer yr unedau gorfodol – mae gwybodaeth am yr unedau Dewisol i'w chael yn y '6502 Pecyn Unedau Dewisol Lefel 3' sydd ar gael i'w lawrlwytho o **www.cityandguilds.com**

**Uned 301 Deall rolau, cyfrifoldebau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant**

(3 chanlyniad dysgu)

- Deall y rôl addysgu a chyfrifoldebau mewn addysg a hyfforddiant
- Deall ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol
- Deall y perthnasoedd rhwng athrawon a phobl broffesiynol eraill mewn addysg a hyfforddiant

**Uned 401 Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant**

(4 canlyniad dysgu)

- Gallu defnyddio asesiad cychwynnol a diagnostig i gytuno ar nodau dysgu unigol gyda dysgwyr
- Gallu cynllunio addysgu a dysgu cynhwysol yn unol â gofynion mewnol ac allanol
- Gallu gweithredu'r isafswm craidd mewn cynllunio addysgu a dysgu cynhwysol
- Gallu gwerthuso eu hymarfer eu hunain wrth gynllunio addysgu a dysgu cynhwysol

**Uned 402 Cyflwyno addysg a hyfforddiant**

(5 canlyniad dysgu)

- Gallu defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol yn unol â gofynion mewnol ac allanol.
- Gallu cyfathrebu gyda dysgwyr a phobl broffesiynol eraill i hyrwyddo dysgu a dilyniant.
- Gallu defnyddio technolegau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol.
- Gallu gweithredu'r isafswm craidd wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol
- Gallu gwerthuso eu hymarfer eu hunain wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol

**Uned 403 Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant**
(4 canlyniad dysgu)

- Gallu defnyddio mathau a dulliau asesu i fodloni anghenion dysgwyr unigol
- Gallu cynnal asesiadau yn unol â gofynion mewnol ac allanol.
- Gallu gweithredu'r isafswm craidd wrth asesu dysgwyr
- Gallu gwerthuso eu hymarfer asesu eu hunain

**Uned 404 Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant**
(3 chanlyniad dysgu)

- Gallu defnyddio adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol.
- Gallu gweithredu'r isafswm craidd wrth ddefnyddio adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol
- Gallu gwerthuso eu defnydd eu hunain o adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol

## Strwythur Unedau

Mae gan yr unedau hyn y canlynol:

- Rhif cyfeirio City & Guilds
- rhif achredu uned (RHAU)
- teitl
- lefel
- gwerth credydau
- oriau dysgu dan arweiniad
- nod yr uned
- perthynas â Safonau Galwedigaethau Cenedlaethol (SGC / NOS), cymwysterau a fframweithiau eraill
- Cymeradwyaeth gan sector neu gorff priodol arall
- gwybodaeth ar asesu
- canlyniadau dysgu sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- nodiadau canllaw.

DS Yn y ddogfen hon mae cynnwys yr unedau gorfodol yn unig.

Mae cynnwys yr unedau dewisol i'w gael yn '6502 Pecyn Unedau Dewisol Lefel 4 & 5' y gellir ei lawrlwytho o **www.cityandguilds.com**

# Uned 301 Deall rolau, cyfrifoldebau, a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | H/505/0053 |
| **Lefel:** | 3 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 12 |
| **Asesu** | Caiff yr uned hon ei hasesu trwy aseiniad |
| **Perthynas i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** | Mae safonau proffesiynol cynhwysfawr athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn sail i'r uned hon. |
| **Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:** | Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS) |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned yw galluogi'r ymgeisydd i ddeall rôl a chyfrifoldebau athro mewn addysg a hyfforddiant a'r berthynas rhwng gwahanol bobl broffesiynol mewn addysg a hyfforddiant. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb am gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol i'w dysgwyr. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>1. deall y rôl addysgu a chyfrifoldebau mewn addysg a hyfforddiant |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>1.1 esbonio'r rôl addysgu a chyfrifoldebau mewn addysg a hyfforddiant<br>1.2 crynhoi agweddau allweddol o ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio a chodau ymarfer yn ymwneud â'i rôl a'i gyfrifoldebau ei hun<br>1.3 esbonio ffyrdd o hyrwyddo cydraddoldeb a rhoi gwerth ar amrywiaeth<br>1.4 esbonio pam mae hi'n bwysig adnabod a bodloni anghenion dysgwyr unigol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>2. deall ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>2.1 esbonio ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol<br>2.2 esbonio pam mae hi'n bwysig hyrwyddo ymddygiad priodol a pharch at bobl eraill. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>3. deall y perthnasoedd rhwng athrawon a phobl broffesiynol eraill mewn addysg a hyfforddiant |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>3.1 esbonio sut mae'r rôl addysgu'n cynnwys gweithio gyda phobl broffesiynol eraill<br>3.2 esbonio'r ffiniau rhwng y rôl addysgu a rolau proffesiynol eraill<br>3.3 disgrifio pwyntiau cyfeirio i fodloni anghenion unigol dysgwyr. |

# Uned 301 Deall rolau, cyfrifoldebau, a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant

Gwybodaeth ategol

**Arweiniad**

Yr uned hon yw uned 001 o'r Lefel 3 flaenorol, Paratoi i Addysgu yn y Sector Gydol Oes a does dim newid yn yr uned hon. Y mae'n gyffredin i'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant a'r Dystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant, a bydd unrhyw ymgeisydd sydd wedi cael yr uned hon yn y Dyfarniad Lefel 3 yn rhydd rhag ei hailadrodd os penderfyna wneud y Dystysgrif Lefel 4 mewn addysg.

Mae'r uned hon am rolau a chyfrifoldebau athro. I ddangos eu gwybodaeth bydd ymgeiswyr yn ystyried sut mae eu rolau a'u cyfrifoldeb fel athro'n cysylltu â'r cylch addysgu/ hyfforddi. Byddant yn ymchwilio i ddeddfwriaeth generig yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, a hefyd unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'w maes sgìl, neu faes addysgu. Mae i gydraddoldeb ac amrywiaeth le amlwg yn yr uned hon ynghyd â phwysigrwydd cynhwysiant a bodloni anghenion dysgwyr. Mae gweithio gyda phobl broffesiynol eraill yn rhan bwysig o unrhyw rôl addysgu, a bydd dysgwyr yn archwilio ystyr ffiniau proffesiynol a phwyntiau cyfeirio posibl.

Mae aseiniadau enghreifftiol ar gael ar gyfer yr uned hon, neu gall canolfannau ddyfeisio eu haseiniadau eu hunain, ar yr amod y cytunir arnynt gyda'u Hymgynghorydd Cymwysterau, cyn cychwyn y rhaglen.

# Uned 401 Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | A/505/1189 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 15 |
| **Perthynas i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** | Mae safonau proffesiynol cynhwysfawr athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn sail i'r uned hon. |
| **Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:** | Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS) |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned yw galluogi'r dysgwr i gytuno ar nodau dysgu unigol gyda'u dysgwyr, i gynllunio addysgu cynhwysol a dulliau dysgu yn unol â phrosesau mewnol a gofynion allanol, ac i werthuso eu hymarfer eu hunain wrth gynllunio addysgu a dysgu. Mae'n cwmpasu disgwyliadau mewn perthynas ag isafswm craidd wrth gynllunio addysgu a dysgu cynhwysol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>1. gallu defnyddio asesiad cychwynnol a diagnostig i gytuno ar nodau dysgu unigol gyda dysgwyr |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>1.1 dadansoddi rôl a defnydd asesiad cychwynnol a diagnostig wrth gytuno ar nodau dysgu unigol<br>1.2 defnyddio dulliau o asesu cychwynnol a diagnostig i drafod a chytuno ar nodau dysgu unigol gyda dysgwyr<br>1.3 cofnodi nodau dysgu unigol dysgwyr |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>2. gallu cynllunio addysgu a dysgu cynhwysol yn unol â gofynion mewnol ac allanol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>2.1 dyfeisio cynllun gwaith yn unol â gofynion mewnol ac allanol<br>2.2 dylunio cynlluniau addysg a dysgu sy'n bodloni nodau ac anghenion unigol yr holl ddysgwr a gofynion y cwricwlwm<br>2.3 esbonio sut mae eu cynllunio'u hunain yn bodloni anghenion unigol dysgwyr<br>2.4 esbonio ffyrdd o addasu cynlluniau addysgu a dysgu i fodloni anghenion unigol dysgwyr.<br>2.5 adnabod cyfleoedd ar gyfer dysgwyr i ddarparu adborth i roi sail i ymarfer cynhwysol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>3. gallu gweithredu'r isafswm craidd mewn cynllunio addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>3.1 dadansoddi ffyrdd o ddangos lleiafswm o elfennau craidd wrth gynllunio addysgu a dysgu cynhwysol<br>3.2 defnyddio isafswm o elfennau craidd wrth gynllunio addysgu a dysgu cynhwysol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>4. gallu gwerthuso eu hymarfer eu hunain wrth gynllunio addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>4.1 adolygu effeithiolrwydd eu hymarfer eu hunain wrth gynllunio i fodloni anghenion unigol dysgwyr, gan gymryd i ystyriaeth barn dysgwyr ac eraill.<br>4.2 adnabod meysydd ar gyfer gwella yn eu cynllunio eu hunain i fodloni anghenion unigol dysgwyr. |

# Uned 401 Cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu defnyddio asesiad cychwynnol a diagnostig a thrafod a chytuno nodau dysgu unigol gyda dysgwyr. Gan ystyried nodau ac anghenion dysgwyr unigol, bydd ymgeiswyr yn dyfeisio cynllun gwaith a chynlluniau gwersi a fydd yn rhoi tystiolaeth o addysgu a dysgu cynhwysol. Bydd y cynlluniau sesiynau hefyd yn dangos sut mae ymgeiswyr yn gallu gweithredu isafswm craidd yn eu maes sgìl penodol. Gan ei bod hi'n hanfodol bod yr holl athrawon/hyfforddwyr yn ymarferwyr myfyriol, mae'r uned hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gael adborth a'i ddefnyddio i adolygu, gwerthuso a gwella eu hymarfer eu hunain wrth gynllunio i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr.

Rhaid i dystiolaeth am yr uned hon ddeillio o amgylchedd addysgu real a rhaid i gynlluniau ddangos nodau CLYFAR a chanlyniadau dysgu sy'n realistig a rhai y mae modd eu cyflwyno.

Dylai'r cynlluniau sy'n cael eu dyfeisio gael eu defnyddio gan yr ymgeisydd wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant a dylid eu seilio ar gr p o ddysgwyr y maen nhw'n ei ddysgu. Dylai'r ymarfer redeg fel edafedd trwy gydol y rhaglen, a dylai arsylwadau gael eu gwasgaru trwy gydol y rhaglen er mwyn caniatáu adborth i gefnogi datblygiad ymarfer da.

Dylai tiwtoriaid roi adborth adeiladol a datblygol i ymgeiswyr ar ôl iddyn nhw arsylwi eu cyflwyniad gan gadw cofnodion yr adborth i gefnogi arsylwadau'r dyfodol, sicrhau ansawdd mewnol a sicrhau ansawdd allanol.

Dylid annog ymgeiswyr i ystyried eu syniadau eu hunain am eu cynllunio, unrhyw adborth a gânt a gwybodaeth o unrhyw ymchwil neu aseiniadau ysgrifenedig er mwyn paratoi eu gwerthusiad eu hunain o'u cynlluniau ar gyfer eu sesiynau addysgu/dysgu.

Bydd yr uned hon yn rhoi tystiolaeth ar ryw ffurf o aseiniad ysgrifenedig i roi tystiolaeth o'r meini prawf asesu gwybodaeth a bydd hefyd yn rhoi peth tystiolaeth o gynnyrch a gaiff ei chadw yn y portffolio o dystiolaeth addysgu.

Rhaid i bob tystiolaeth gael ei chroesgyfeirio a dangos llwybr awdit clir at ddibenion asesu a sicrhau ansawdd yn fewnol ac yn allanol.

# Uned 402 Cyflwyno addysg a hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | M/505/0122 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Gwerth credydau:** | 6 |
| **ODDA:** | 24 |
| **Perthynas i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** | Mae safonau proffesiynol cynhwysfawr athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn sail i'r uned hon. |
| **Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:** | Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS) |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned yw galluogi'r dysgwr i ddefnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol yn unol â phrosesau mewnol a gofynion allanol, i gyfathrebu â dysgwyr ac i werthuso eu hymarfer cyflwyno. Mae'n rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o sut gall technoleg wella addysgu a dysgu ac mae'n cwmpasu disgwyliadau mewn perthynas ag isafswm craidd wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>1. gallu defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol yn unol â gofynion mewnol ac allanol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>1.1 Dadansoddi effeithiolrwydd dulliau addysgu a dysgu a ddefnyddir yn eu maes arbenigol eu hunain mewn perthynas â bodloni anghenion unigol dysgwyr<br>1.2 creu amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol<br>1.3 dangos dull cynhwysol o addysgu a dysgu yn unol â gofynion mewnol ac allanol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>2. gallu cyfathrebu gyda dysgwyr a phobl broffesiynol eraill i hyrwyddo dysgu a dilyniant |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>2.1 dadansoddi manteision a chyfyngiadau dulliau cyfathrebu a chyfryngau a ddefnyddir yn eu maes arbenigol eu hunain<br>2.2 defnyddio dulliau cyfathrebu a chyfryngau i fodloni anghenion dysgwyr unigol<br>2.3 cyfathrebu â phobl dysgu proffesiynol eraill i fodloni anghenion dysgwyr unigol ac i annog dilyniant. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>3. gallu defnyddio technolegau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>3.1 dadansoddi manteision a chyfyngiadau dulliau cyfathrebu a ddefnyddir yn eu maes arbenigol eu hunain<br>3.2 defnyddio technolegau i wella addysgu ac i fodloni anghenion dysgwyr unigol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>4. gallu gweithredu'r isafswm craidd wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>4.1 dadansoddi ffyrdd o ddangos lleiafswm o elfennau craidd wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol<br>4.2 defnyddio isafswm o elfennau craidd wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>5. gallu gwerthuso eu hymarfer eu hunain wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>5.1 adolygu effeithiolrwydd eu hymarfer eu hunain wrth fodloni anghenion dysgwyr unigol, gan gymryd i ystyriaeth farn dysgwyr ac eraill.<br>5.2 adnabod meysydd ar gyfer gwella eu hymarfer eu hunain i fodloni anghenion unigol dysgwyr. |

# Uned 402 Cyflwyno addysg a hyfforddiant

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad

Yn yr uned hon, bydd ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gallu creu amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol a dull cynhwysol o gyflwyno addysgu a dysgu. Mae cyfathrebu'n nodwedd allweddol o'r uned hon, a bydd ymgeiswyr yn cael tystiolaeth o'u cyfathrebu effeithiol gyda dysgwyr a phobl broffesiynol eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chyfryngau cyfathrebu, ac yn dangos eu bod yn gallu defnyddio technolegau i wella addysgu a dysgu. Mae isafswm craidd yn nodwedd arall o'r uned hon, a bydd dysgwyr yn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio elfennau isafswm craidd ym maes arbenigol eu haddysgu. Bydd yr uned hon hefyd yn datblygu ymarfer myfyriol ymgeiswyr, gan eu hannog i gael adborth a'i ddefnyddio i adnabod meysydd ar gyfer gwella.

Rhaid cael tystiolaeth ar gyfer yr uned hon o amgylchedd addysgu real, ac wrth gyflwyno addysgu a dysgu, rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phrosesau mewnol a gofynion allanol. Argymhellir y dylai cynlluniau a gyflwynir am uned 401 gael eu defnyddio i gyflwyno dysgu o fewn yr uned hon.

Er mwyn cyflawni'r uned hon, mae'n ofynnol rhoi tystiolaeth o leiafswm o un awr o arsylwi ymarfer wedi'i asesu yn nodi bod safon ofynnol yr ymarfer wedi'i chyrraedd. Gweler manylion yn Adran 4 y ddogfen hon 'Ymarfer wedi'i Arsylwi a'i Asesu'.

Dylai o leiaf un awr o'r tair awr orfodol o ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu sy'n gysylltiedig â'u unedau gorfodol ddangos nodweddion gradd 2.

Dylid annog ymgeiswyr i ystyried eu syniadau eu hunain am eu cyflwyno, unrhyw adborth a gânt a gwybodaeth o unrhyw ymchwil neu aseiniadau ysgrifenedig er mwyn myfyrio ar eu cyflwyniad eu hunain a sut gallan nhw wella eu hymarfer.

Bydd yr uned hon yn rhoi tystiolaeth ar ryw ffurf o aseiniad ysgrifenedig i roi tystiolaeth o'r meini prawf asesu gwybodaeth a bydd hefyd yn rhoi peth tystiolaeth cynnyrch a gaiff ei chadw yn y portffolio o dystiolaeth addysgu.

Rhaid i bob tystiolaeth gael ei chroesgyfeirio a dangos llwybr awdit clir at ddibenion asesu a sicrhau ansawdd yn fewnol ac yn allanol.

# Uned 403 Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | F/505/0125 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Gwerth credydau:** | 6 |
| **ODDA:** | 24 |
| **Perthynas i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** | Mae safonau proffesiynol cynhwysfawr athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn sail i'r uned hon. |
| **Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:** | Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS) |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned yw galluogi'r dysgwr i ddefnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol yn unol â phrosesau mewnol a gofynion allanol, i gyfathrebu â dysgwyr ac i werthuso eu hymarfer cyflwyno. Mae'n rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o sut gall technoleg wella addysgu a dysgu ac mae'n cwmpasu disgwyliadau mewn perthynas ag isafswm craidd wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>1. gallu defnyddio mathau a dulliau asesu i fodloni anghenion dysgwyr unigol. |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>1.1 esbonio pwrpasau mathau o asesu sy'n cael eu defnyddio mewn addysg a hyfforddiant<br>1.2 Dadansoddi effeithiolrwydd dulliau asesu mewn perthynas â bodloni anghenion unigol dysgwyr<br>1.3 defnyddio mathau a dulliau o asesu i fodloni anghenion unigol dysgwyr<br>1.4 defnyddio hunan-asesiad ac asesiad cymheiriaid i hyrwyddo rhan y dysgwyr a chyfrifoldeb personol yn yr asesiad ar gyfer eu dysgu a'u hasesiad ohono.<br>1.5 defnyddio holi ac adborth i gyfrannu at y broses asesu. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwyr yn:<br>2. gallu cynnal asesiadau yn unol â gofynion mewnol ac allanol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>2.1 adnabod gofynion asesu mewnol ac allanol a dulliau perthynol o raglenni dysgu<br>2.2 defnyddio mathau a dulliau o asesu i alluogi dysgwyr i gynhyrchu tystiolaeth asesu sy'n ddilys, yn ddibynadwy, yn ddigonol, yn awthentig ac yn gyfoes<br>2.3 cynnal asesiadau yn unol â gofynion mewnol ac allanol<br>2.4 cofnodi canlyniadau asesiadau i fodloni gofynion mewnol ac allanol<br>2.5 cyfathrebu gwybodaeth asesu i bobl broffesiynol eraill gyda diddordeb yng nghyrhaeddiad dysgwyr. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwyr yn:<br>3. gallu gweithredu'r isafswm craidd wrth asesu dysgwyr. |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>3.1 dadansoddi ffyrdd o ddangos lleiafswm elfennau craidd wrth asesu dysgwyr<br>3.2 defnyddio lleiafswm elfennau craidd wrth asesu dysgwr. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwyr yn:<br>4. gallu gwerthuso eu hymarfer asesu eu hunain |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>4.1 adolygu effeithiolrwydd eu hymarfer asesu eu hunain gan ystyried barn dysgwyr ac eraill<br>4.2 adnabod meysydd gwella yn eu hymarfer asesu eu hunain. |

# Uned 403 Asesu dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad

Yn yr uned hon, bydd ymgeiswyr yn rhoi tystiolaeth eu bod yn gallu defnyddio mathau a dulliau o asesu i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Bydd ymgeiswyr yn adnabod gweithdrefnau a phrosesau mewnol ac allanol yn ymwneud ag asesu a chofnodi canlyniadau asesu. Nodwedd o'r uned hon yw annog ymgeiswyr i ddefnyddio canlyniadau asesu i fod yn sail addysgu a dysgu a chyrhaeddiad dysgwyr unigol. Bydd ymgeiswyr hefyd yn gallu defnyddio isafswm craidd i'w hymarfer asesu. Bydd yr uned hon hefyd yn annog ymgeiswyr i adolygu eu hymarfer asesu ac i adnabod meysydd ar gyfer gwella. Rhaid i dystiolaeth am yr uned hon ddod o amgylchedd gwaith real.

Mae gofyniad i arsylwi ac asesu ymarfer yn yr uned hon.

Er mwyn cyflawni'r uned hon, mae'n ofynnol rhoi tystiolaeth o leiafswm o un awr o arsylwi ymarfer wedi'i asesu yn nodi bod safon ofynnol yr ymarfer wedi'i chyrraedd. Gweler manylion yn Adran 4 y ddogfen hon 'Ymarfer wedi'i Arsylwi a'i Asesu'.

Dylai o leiaf un awr o'r tair awr orfodol o ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu sy'n gysylltiedig â'u unedau gorfodol ddangos nodweddion gradd 2.

Dylid annog ymgeiswyr i ystyried eu hymarfer asesu eu hunain, unrhyw adborth a gânt a gwybodaeth o unrhyw ymchwil neu aseiniadau ysgrifenedig er mwyn myfyrio ar effeithiolrwydd eu hymarfer asesu eu hunain a nodi meysydd ar gyfer gwella.

Bydd yr uned hon yn rhoi tystiolaeth ar ryw ffurf o aseiniad ysgrifenedig i roi tystiolaeth o'r meini prawf asesu gwybodaeth a bydd hefyd yn rhoi peth tystiolaeth cynnyrch a gaiff ei chadw yn y portffolio o dystiolaeth addysgu.

Rhaid i bob tystiolaeth gael ei chroesgyfeirio a dangos llwybr awdit clir at ddibenion asesu a sicrhau ansawdd yn fewnol yn allanol.

# Uned 404 Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | L/505/0127 |
| **Lefel:** | 4 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 15 |
| **Perthynas i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** | Mae safonau proffesiynol cynhwysfawr athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn sail i'r uned hon. |
| **Cymeradwyaeth gan sector neu gorff rheoleiddio:** | Caiff yr uned hon ei chymeradwyo gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau (LSIS) |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned yw galluogi'r dysgwr i ddefnyddio adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol a gallu gwerthuso'r defnydd o hyn. Mae'n cwmpasu disgwyliadau mewn perthynas â'r isafswm craidd mewn perthynas â defnyddio adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu cynhwysol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>1. gallu defnyddio adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>1.1 Dadansoddi effeithiolrwydd adnoddau a ddefnyddir yn eu maes arbenigol eu hunain mewn perthynas â bodloni anghenion unigol dysgwyr<br>1.2 defnyddio adnoddau i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bodloni anghenion unigol dysgwyr<br>1.3 addasu adnoddau i fodloni anghenion unigol dysgwyr. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>2. gallu gweithredu'r isafswm craidd wrth ddefnyddio adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>2.1 dadansoddi ffyrdd o ddangos lleiafswm o elfennau craidd wrth ddefnyddio adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu cynhwysol<br>2.2 defnyddio elfennau isafswm craidd wrth ddefnyddio adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu cynhwysol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwyr yn:<br>3. gallu gwerthuso eu defnydd eu hunain o adnoddau wrth gyflwyno addysgu a dysgu cynhwysol |
| **Meini Prawf Asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>3.1 adolygu effeithiolrwydd eu hymarfer eu hunain wrth ddefnyddio adnoddau i fodloni anghenion unigol dysgwyr, gan gymryd i ystyriaeth barn dysgwyr ac eraill.<br>3.2 adnabod meysydd ar gyfer gwella yn eu defnydd o adnoddau i fodloni anghenion unigol dysgwyr. |

# Uned 404 Defnyddio adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad

Yn yr uned hon, bydd ymgeiswyr yn dadansoddi effeithiolrwydd eu hadnoddau gan gyfeirio'n benodol at eu maes arbenigol eu hunain, cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nodwedd allweddol o'r uned hon yw bod ymgeiswyr yn dangos eu gallu i addasu ac i ddefnyddio adnoddau sy'n effeithiol wrth fodloni anghenion dysgwyr unigol.

Bydd ymgeiswyr hefyd yn gallu defnyddio lleiafswm craidd wrth ddefnyddio adnoddau i hyrwyddo addysgu/hyfforddi a dysgu cynhwysol. Mae'r uned hon hefyd yn annog ymgeiswyr i geisio adborth i adolygu eu heffeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac adnabod meysydd ar gyfer gwella. Rhaid i dystiolaeth ar gyfer yr uned hon ddod o addysgu/hyfforddi ac amgylchedd dysgu real.

Er mwyn cyflawni'r uned hon, mae'n ofynnol rhoi tystiolaeth o leiafswm o un awr o arsylwi ymarfer wedi'i asesu bod safon ofynnol yr ymarfer wedi'i chyrraedd. Gweler manylion yn Adran 4 y ddogfen hon 'Ymarfer wedi'i Arsylwi a'i Asesu'.

Dylai o leiaf un awr o'r tair awr orfodol o ymarfer wedi'i arsylwi a'i asesu sy'n gysylltiedig â'r unedau gorfodol ddangos nodweddion gradd 2

Dylid annog ymgeiswyr i adolygu pa mor effeithiol yw eu hadnoddau, ystyried unrhyw adborth a gânt a gwybodaeth o unrhyw ymchwil neu aseiniadau ysgrifenedig er mwyn myfyrio ar effeithiolrwydd eu defnydd eu hunain o adnoddau a nodi meysydd ar gyfer gwella.
Bydd yr uned hon yn rhoi tystiolaeth ar ryw ffurf o aseiniad ysgrifenedig i roi tystiolaeth o'r meini prawf asesu gwybodaeth a bydd hefyd yn rhoi peth tystiolaeth cynnyrch a gaiff ei chadw yn y portffolio o dystiolaeth addysgu.

Rhaid i bob tystiolaeth gael ei chroesgyfeirio a dangos llwybr awdit clir at ddibenion asesu a sicrhau ansawdd yn fewnol yn allanol.



# Atodiad 1 Gofynion ar gyfer cyflwyno ac asesu Dysgu a Datblygu

## 1 Sicrhau ansawdd

Rhaid i ganolfan sy'n cynnig y cymwysterau hyn ddarparu sicrhau ansawdd mewnol i sicrhau bod yr asesiad yn bodloni holl ofynion y corff dyfarnu a'i fod wedi'i safoni ar draws aseswyr unigol, lleoliadau asesu a dysgwyr. Yn ogystal, rhaid i'r sefydliadau dyfarnu sicrhau bod system gadarn o sicrhau ansawdd allanol i sicrhau ansawdd a safoni ar draws canolfannau.

Dylai sefydliadau dyfarnu ddefnyddio camau mesur risg priodol i ganolfannau asesu unigol a sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd cadarn yn eu lle i reoli'r risgiau hyn ar sail unigol.

## 2 Gofynion i aseswyr

Rhaid i bawb sy'n asesu'r cymwysterau hyn:

• feddu eisoes gymhwyster y maen nhw'n ei asesu (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) a bod wedi asesu dysgwyr yn llwyddiannus ar gyfer cymwysterau eraill (os asesir rolau sicrhau ansawdd, rhaid bod ganddynt brofiad fel ymarferwr sicrhau ansawdd cymwysedig ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol neu allanol o ran cymwysterau am leiafswm o ddau aseswr);
• cael gwybodaeth weithio gyfoes a phrofiad o'r arfer gorau mewn asesu a sicrhau ansawdd;
• feddu un o'r cymwysterau canlynol neu un cyfatebol cydnabyddedig:
  - Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Hyfedredd yn yr Amgylchedd Gwaith (QCF); neu
  - Lefel 3 Tystysgrif mewn Asesu Cyrhaeddiad Galwedigaethol (QCF); neu
  - A1 Asesu perfformiad ymgeiswyr gan ddefnyddio ystod o ddulliau; neu
  - D32 Asesu perfformiad ymgeisydd a D33 Asesu ymgeisydd gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau o dystiolaeth; a

• dangos tystiolaeth gyfredol o ddatblygiad proffesiynol parhaus wrth asesu a sicrhau ansawdd.

## 3 Gofynion ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i bawb sydd â rhan mewn sicrhau ansawdd y cymwysterau hyn yn fewnol:

• feddu gwybodaeth weithio gyfoes a phrofiad o'r arfer gorau mewn asesu a sicrhau ansawdd;
• meddu un o'r cymwysterau aseswr canlynol neu un cyfatebol cydnabyddedig:
  - Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Hyfedredd yn yr Amgylchedd Gwaith (QCF) neu
  - Lefel 3 Tystysgrif mewn Asesu Cyrhaeddiad Galwedigaethol (QCF); neu
  - A1 Asesu perfformiad ymgeiswyr gan ddefnyddio ystod o ddulliau; neu
  - D32 Asesu perfformiad ymgeisydd a D33 Asesu ymgeisydd gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau o dystiolaeth;
• meddu un o'r cymwysterau sicrhau ansawdd mewnol canlynol neu un cyfatebol cydnabyddedig:
  - Lefel 4 Dyfarniad mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu (QCF); neu
  - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu (QCF); neu
  - VI Cynnal sicrhau ansawdd mewnol o'r broses asesu; neu
  - D3 Dilysu'r broses asesu'n fewnol ;a
• dangos tystiolaeth gyfredol o ddatblygiad proffesiynol parhaus wrth asesu a sicrhau ansawdd.

# Atodiad 2 Gofynion ar gyfer cyflwyno ac asesu Llythrennedd ac Addysgu Iaith a Mathemateg ar gyfer Addysgu Rhifedd

### Gofynion staff

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn allu dangos eu bod yn cwrdd â'r gofynion arbenigol galwedigaethol canlynol. Dylent:

- allu arddangos y nodweddion sy'n cyfateb i statws QTLS a meddu lefel 4 gydnabyddedig neu lefel 5 generig neu gymhwyster addysgu arbenigol. Er enghraifft; 407 Tystysgrif mewn Addysgu Addysg Bellach cam 3, Lefel 4 NVQ mewn Hyfforddi a Datblygu, Lefel 4 NVQ Dysgu a Datblygu, 7305 Diploma mewn Addysgu Saesneg (Llythrennedd) yn y Sector Dysgu Gydol Oes (120 credyd), 7305 Diploma mewn Addysgu Mathemateg (Rhifedd) yn y Sector Dysgu Gydol Oes (120 credyd) neu'r Diploma 7305 generig yn y Sector Dysgu Gydol Oes (120 credyd), neu Dystysgrif mewn Addysg (Tyst. Add.), neu Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)
- meddu cymhwyster cydnabyddedig am addysgu yn y maes arbenigol er enghraifft 7305 Diploma (neu uwch) neu 7305 Diploma Atodol mewn Addysgu Saesneg (Llythrennedd) yn y Sector Gydol Oes (45 credyd), 7305 Diploma Atodol mewn Addysgu Mathemateg (Rhifedd) yn y Sector Dysgu Gydol Oes (45 credyd
- meddu ar brofiad perthnasol yn y maes penodol y byddan nhw'n ei asesu
- fod wedi cael profiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Gall staff y ganolfan gymryd mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac aseswr neu ddilysydd mewnol, ond ni allan nhw ddilysu'n fewnol eu hasesiadau eu hunain.

## Aseswyr a dilyswyr mewnol/sicrhawyr ansawdd mewnol

Rhoddir gwerth ar unedau Aseswyr a Dilyswyr / Sicrhau Ansawdd Mewnol fel cymwysterau i staff y ganolfan, ond dydy'r rhain ddim ar hyn o bryd yn ofyniad ar gyfer y cymwysterau hyn.

## Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Rhaid i ganolfannau gefnogi eu staff i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol yn y maes galwedigaethol, bod cyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a dilysu yn unol â'r arfer gorau, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

# Atodiad 3 Perthynas i gymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Darperir mapio fel arweiniad ac mae'n awgrymu meysydd cyffredin rhwng y cymwysterau. Nid yw'n golygu bod ymgeiswyr sy'n cwblhau'r unedau mewn un cymhwyster wedi ymdrin yn awtomatig â holl gynnwys un arall.

Mae canolfannau'n gyfrifol am wirio gwahanol ofynion yr holl gymwysterau maen nhw'n eu cyflwyno ac am sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni gofynion yr holl unedau/cymwysterau.

## Datblygu llythrennedd, iaith, rhifedd a sgiliau TGCh

Gall y cymhwyster hwn ddatblygu sgiliau sy'n gallu cael eu defnyddio yn y cymwysterau canlynol:

- Sgiliau Gweithredol (Lloegr) - gweler **www.cityandguilds.com/functionalskills**
- Sgiliau Hanfodol (Gogledd Iwerddon) - gweler **www.cityandguilds.com/essentialskillsni**
- Sgiliau Hanfodol Cymru – **www.cityandguilds.com/esw**
- Saesneg ar gyfer addysgu llythrennedd ac addysgu iaith (6255-01)
- Mathemateg ar gyfer Addysgu Rhifedd (6255-02)
- Lefel 5 Diploma generig mewn Addysg a Hyfforddiant

Lefel 5 diplomâu arbenigol integredig 120 credyd

- Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant (Saesneg: Llythrennedd)
- Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant (Saesneg: ESOL)
- Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant (Saesneg: Llythrennedd ac ESOL) 3
- Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant (Mathemateg: Rhifedd)
- Lefel 5 Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant (Dysgwyr Anabl)

Lefel 5 diplomâu arbenigol annibynnol 45 credyd

- Lefel 5 Diploma mewn Addysgu Saesneg: Llythrennedd
- Lefel 5 Diploma mewn Addysgu Saesneg: ESOL
- Lefel 5 Diploma mewn Addysgu Saesneg: Llythrennedd ac ESOL 4
- Lefel 5 Diploma mewn Addysgu Mathemateg: Rhifedd
  Lefel 5 Diploma mewn Addysgu Dysgwyr Anabl

# Atodiad 4 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol



Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i ganolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau City & Guilds. Dylid cyfeirio atynt y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i **hafan Canolfannau a Darparwyr Hyfforddiant** ar **www.cityandguilds.com** .

***Llawlyfr Canolfan - Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid*** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer canolfan i gyflawni statws 'canolfan gymeradwy', neu i gynnig cymhwyster penodol, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf ac enghreifftiau arfer da ar gyfer materion polisi ac asesu City & Guilds. Yn benodol, mae'r ddogfen yn cynnwys adrannau ar:

- Y ganolfan a'r broses gymeradwyo cymhwyster
- Rolau asesu, sicrhau ansawdd mewnol ac arholiad yn y ganolfan
- Cofrestru ac ardystio ymgeiswyr
- Diffyg cydymffurfio
- Cwynion ac apeliadau
- Cyfleoedd Cyfartal
- Gwarchod data
- Systemau rheoli
- Cynnal cofnodion
- Asesu
- Sicrhau Ansawdd Mewnol
- Sicrhau ansawdd allanol.

***Mae ein Gofynion Sicrhau Ansawdd*** yn cwmpasu holl ofynion perthnasol dogfennau rheoleiddio allweddol fel:

- Trefniadau Rheoleiddio ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (2008)
- Meini Prawf Corff Dyfarnu SQA (2007)
- Cod Ymarfer NVQ (2006)

ac yn gosod allan y meini prawf y dylai canolfannau gadw atyn nhw cyn ac ar ôl cael cymeradwyaeth canolfan.

***Mynediad i Asesu a Chymwysterau*** yn rhoi manylion llawn y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer addasiadau wrth asesu.

Mae **tudalen hafan canolfannau** ar wefan City & Guilds hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar bethau fel:

- **Walled Garden:** sut i gofrestru ac ardystio ymgeiswyr ar-lein
- **Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF)**: canllaw cyffredinol am y QCF a sut y bydd cymwysterau'n newid, yn ogystal â gwybodaeth am y systemau TG sydd eu hangen a Chwestiynau Cyffredin
- **Digwyddiadau**: dyddiadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau diweddaraf y Ganolfan
- **Asesu ar-lein**: sut i gofrestru am e-asesiadau.

City & Guilds

**Credwch yn eich gallu**

www.cityandguilds.com

## Cysylltau defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Dysgwyr y D.U.**<br>**Gwybodaeth gyffredinol ar y cymhwyster** | **FFÔN: +44 (0)844 543 0033**<br>**E: learnersupport@cityandguilds.com** |
| **Dysgwyr rhyngwladol**<br>Gwybodaeth gyffredinol ar y cymhwyster | FFÔN: +44 (0)844 543 0033<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2413<br>E: **intcg@cityandguilds.com** |
| **Canolfannau**<br>Cofnodion Arholiad, Tystysgrifau, Cofrestriadau / cofrestru, Anfonebau, Deunydd arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau, Canlyniadau | FFÔN: +44 (0)844 543 0000<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2413<br>E: **centresupport@cityandguilds.com** |
| **Cymwysterau pwnc unigol**<br>Ceisiadau arholiad, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Papurau arholiad anghywir, Ceisiadau am ffurflenni (BB, bwydo canlyniadau), dyddiad arholiad a newid amser | FFÔN: +44 (0)844 543 0000<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2413<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2404 (ffurflenni BB)<br>E: **singlesubjects@cityandguilds.com** |
| **Dyfarniadau rhyngwladol**<br>Canlyniadau, Ceisiadau, Ymrestriadau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau | FFÔN: +44 (0)844 543 0000<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2413<br>E: **intops@cityandguilds.com** |
| **Walled Garden**<br>Ailgyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Ceisiadau, Canlyniadau, e-asesu, Llywio, Dewis defnyddiwr/dewislen, Problemau | FFÔN: +44 (0)844 543 0000<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2413<br>E: **walledgarden@cityandguilds.com** |
| **Cyflogwr**<br>Atebion cyflogwyr, Mapio, Achredu, Sgiliau datblygu, Ymgynghori | FFÔN: +44 (0)121 503 8993<br>E: **business@cityandguilds.com** |
| **Cyhoeddiadau**<br>Llyfrau log, Dogfennau'r ganolfan, Ffurflenni, Llenyddiaeth am ddim | FFÔN: +44 (0)844 543 0000<br>FFACS: +44 (0)20 7294 2413 |

**Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, caiff cynhyrchion a gwasanaethau City & Guilds eu datblygu a'u gwella'n barhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.**

**Os oes gennych gwyn neu unrhyw awgrym i wella unrhyw un o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, e-bostiwch: feedbackandcomplaints@cityandguilds.com**

**Am City & Guilds**

**Fel prif sefydliad addysg alwedigaethol y DU mae City & Guilds yn arwain y chwyldro talent drwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 o ddiwydiannau drwy 8500 o ganolfannau ledled y byd ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Caiff City & Guilds ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ar draws y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.**

**Gr p City & Guilds**

**Mae'r Gr p City & Guilds yn gweithredu o dair canolfan o bwys: Llundain (yn gwasanaethu Ewrop, y Caribî a chyfandiroedd America), Johannesburg (yn gwasanaethu Affrica), a Singapore (yn gwasanaethu Asia, Awstralia a Seland Newydd). Mae'r Gr p hefyd yn cynnwys y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (cymwysterau rheoli ac arweinyddiaeth), Trwydded Ymarfer City & Guilds (cymwysterau tir), y Ganolfan Datblygu Sgiliau (mae CSD yn gweithio i wella polisi ac ymarfer addysg alwedigaethol a hyfforddiant ledled y byd ) a Dysgu Cynorthwyol (e-bortffolio ar-lein).**

**Hawlfraint**

**Mae cynnwys y ddogfen hon, oni bai y nodir fel arall, yn hawlfraint © City & Guilds of London Institute ac ni ellir ei gopïo, ei atgynhyrchu na'i ddosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF wedi'i gloi ohono ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:**

- **caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol**
- **caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds**

**Mae'r *Amodau Copïo Safonol* (gw. gwefan City & Guilds hefyd mewn grym.**

**Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © City & Guilds of London Institute. Gwiriwch yr amodau copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.**

**Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant**

**City & Guilds**
**1 Giltspur Street**
**Llundain EC1A 9DD**
**Ffôn +44 (0)844 543 0000**
**Ffacs +44 (0)20 7294 2413**
**www.cityandguilds.com**